Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Adroddiad ar Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i'r Ddeiseb P-03-63 : Gwahardd Bagiau Plastig

Tachwedd 2008

# Adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i'r Ddeiseb P-03-63 Gwahardd Bagiau Plastig

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn ystod ei ystyriaethau ynghylch Deiseb P-03-63 Gwahardd Bagiau Plastig, a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan y Pwyllgor Deisebau ar 6 Rhagfyr 2007.

2. Mae'n dod i gasgliad ynghylch y ddeiseb ac yn cynnig argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch cymryd camau pellach.

## Cefndir

3. Cyflwynwyd y ddeiseb (P-03-63) i'r Cynulliad wedi i'r testun ddod i'r brig yng nghystadleuaeth BBC Wales "If I ruled the World". Mae'r ddeiseb, a gyflwynwyd gan Neil Evans o Sir Gaerfyrddin, yn galw am wahardd bagiau plastig oherwydd effaith amgylcheddol eu cynhyrchu a'u gwaredu.

4. Ystyriwyd y ddeiseb gan y Pwyllgor Deisebau ac fe'i cyfeiriwyd at y pwyllgor sy'n ystyried y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff er mwyn cael esboniad o'r pwerau i wahardd bagiau plastig neu osod ardoll arnynt y gellid eu cyflwyno yn y Gorchymyn.

5. Cyflwynwyd y ddeiseb wedyn i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i'w hystyried ymhellach.

6. Yn ystod ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2008, cytunodd y pwyllgor i gymryd tystiolaeth ar y ddeiseb gan amryw o randdeiliaid. Ceir rhestr o'r rhai a wahoddwyd i roi tystiolaeth lafar yn Atodiad A.

7. Cytunodd y pwyllgor hefyd i edrych y tu hwnt i gwmpas y ddeiseb ac i ystyried y materion sy'n ymwneud â gosod ardoll ar fagiau plastig.

## Datblygiadau diweddar o ran bagiau plastig

*Ardoll Iwerddon - 2001*

8. Cyflwynodd Gweriniaeth Iwerddon ardoll drwy'r *Waste Management (Amendment) Act 2001* (adran 9)[1], i fynd i'r afael â'r broblem sbwriel a achosid gan fagiau plastig yn y Weriniaeth. Fe'i seiliwyd ar y syniad a ganlyn:

> …by the imposition of product taxes that in some sense reflect the external costs imposed by such products that are not included in the price of the product itself… these external costs are incurred because of 'too many' plastic bags in the Irish environment.

---

[1] Llyfr Statud Iwerddon, *Waste Management (Amendment) Act 2001*, http://www.irishstatutebook.ie/2001/en/act/pub/0036/sec0009.html#sec9

9. Gosodwyd ardoll o 15c i ddechrau, ond codwyd hyn i 22c yn 2007 oherwydd effaith chwyddiant a'r ffaith bod y defnydd o fagiau plastig, er iddo leihau i ddechrau, wedi dechrau cynyddu eto.

*Mesur yr Alban - Mehefin 2005*

10. Yn yr Alban, cyflwynwyd yr *Environmental Levy on Plastic Bags (Scotland) Bill*[2] (Mesur Aelod Preifat) i Senedd yr Alban gan Mike Pringle, Aelod o'r senedd honno, ar 17 Mehefin 2005. Yr amcanion a nodwyd yn y Mesur oedd:

- Diogelu'r amgylchedd drwy leihau'r nifer o fagiau plastig a thrwy fuddsoddi'r arian a gesglir drwy'r ardoll mewn prosiectau amgylcheddol lleol;
- Cynorthwyo awdurdodau lleol i gyrraedd y targedau a osodwyd iddynt yng Nghynllun Gwastraff Cenedlaethol yr Alban drwy annog pobl i ddefnyddio llai o fagiau plastig a'u hailddefnyddio; a
- Chodi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol fel ailgylchu ac ysbwriel[3]

11. Methodd y Mesur yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn 2007, yn bennaf oherwydd bod y pwyllgor yn credu nad oedd digon o dystiolaeth y byddai'r Mesur yn sicrhau'r buddiannau amgylcheddol yr oedd yn ceisio eu cyflawni.

*Modbury - Ionawr 2007*

12. Ar 1 Mai 2007, Modbury yn Nyfnaint oedd y dref gyntaf ym Mhrydain i ddod â'r arfer o roi bagiau siopa plastig i gwsmeriaid i ben, gan ddatgan:

> "If a trader puts any product into a bag for a customer, then that bag is not to be made from plastic."

Prif amcanion y gwaharddiad ym Modbury yw lleihau gwastraff y cartref a diogelu'r amgylchedd lleol.

13. Mae'r cynllun wedi dechrau ymgyrch sydd wedi arwain at ymdrech gan sawl tref yng ngweddill y DU i gael gwared ar fagiau plastig.

14. Ar hyn o bryd, y Gelli Gandryll yw'r unig dref yng Nghymru sydd wedi gwahardd bagiau plastig, ac mae 10 tref neu ardal arall yng Nghymru'n paratoi ar gyfer gwneud hynny.

*Cytundeb gwirfoddol – Mawrth 2007*

---

[2] Senedd yr Alban, *Environmental Levy on Plastic Bags (Scotland) Bill*, http://www.scottish.parliament.uk/business/bills/43-environmentalLevy/b43s2-introd.pdf

[3] Senedd yr Alban, *Environmental Levy on Plastic Bags (Scotland) Bill: Policy memorandum*, http://www.scottish.parliament.uk/business/bills/43-environmentalLevy/b43s2-introd-pm.pdf

15. Ym mis Mawrth 2007, cytunodd Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) a rhanddeiliaid eraill ar y 'Datganiad ar y cyd ar Leihau Effaith Amgylcheddol Bagiau Plastig' a ganlyn:

Mewn ymateb i Weinidogion DEFRA, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa Gogledd Iwerddon ac yng nghyd-destun diddordeb cyhoeddus cyffredinol, mae sector manwerthu'r DU wedi cytuno i weithredu, ac maent yn cynnig mabwysiadu amcan a rennir gyda'r llywodraeth a WRAP i leihau effaith amgylcheddol bagiau plastig 25% erbyn diwedd 2008.

Drwy arwyddo'r datganiad hwn, mae gwerthwyr wedi cytuno:

- I weithio ar y cyd â'r llywodraeth a WRAP i fonitro effaith amgylcheddol bagiau plastig ac i gytuno ar ffigur sylfaenol y gellir mesur unrhyw ostyngiad yn ei erbyn;
- I weithio gyda'r partïon uchod i leihau'r effaith amgylcheddol cyffredinol 25% erbyn diwedd 2008; ac
- I adolygu'r hyn a ddysgwyd erbyn diwedd 2008 er mwyn penderfynu beth fydd angen ei wneud er mwyn sicrhau gostyngiad pellach erbyn 2010.

16. Mae'r 21 corff a ganlyn wedi cytuno i weithredu'r cytundeb gwirfoddol hwn: Alliance Boots, Cymdeithas y Siopau Cyfleustra, Booths, Consortiwm Manwerthu Prydain, y Consortiwm Bagiau Plastig, Co-operative Group, Ffederasiwn Busnesau Bychain yr Alban, Home Retail Group, John Lewis Partnership & Waitrose, Marks & Spencer, Musgrave, Next Group ccc, Cymdeithas Manwerthu Annibynnol Gogledd Iwerddon, y Gymdeithas Deunydd Pacio a Ffilmiau Diwydiannol, Primark Stores Cyf, Sainsbury's, Ffederasiwn Groseri'r Alban, Somerfield, Spar (UK) Cyf, Tesco a WM Morrison.

*Y Mesur Newid yn yr Hinsawdd – Gorffennaf 2008*

17. Yn ei gyllideb ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ei fwriad i godi tâl am y defnydd o fagiau plastig os nad oedd cynnydd digonol wedi ei wneud drwy'r cytundeb gwirfoddol erbyn diwedd 2008.

18. Ar 8 Gorffennaf 2008, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant i'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd er mwyn rhoi'r pwerau i Weinidogion y DU, Gogledd Iwerddon a Chymru gyflwyno ardoll ar fagiau untro. Mae disgwyl i'r Mesur ddod yn Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd ym mis Tachwedd 2008.

## Materion yn deillio o'r dystiolaeth

Y materion allweddol a ddeilliodd o'r dystiolaeth oedd:

- Effaith amgylcheddol bagiau plastig;
- Y diffiniad o fag plastig a goblygiadau newid i ddeunyddiau amgen;
- Y dull gwirfoddol;
- Goblygiadau a materion ymarferol gwahardd bagiau plastig;

- Goblygiadau a materion ymarferol gosod ardoll ar fagiau plastig.

## Effaith amgylcheddol bagiau plastig

19. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth i ddechrau gan Cadwch Gymru'n Daclus a Chymdeithas Cadwraeth y Môr ar raddfa effaith bagiau plastig ar yr amgylchedd.

20. Codasant y materion a ganlyn:

- Amcangyfrifir y defnyddir 490 miliwn o fagiau plastig yng Nghymru bob blwyddyn;
- Mae bagiau plastig yn cyfrannu at rhwng 0.1 – 1% o'r sbwriel a welir yn y DU;
- Mae tua 2% o'r sbwriel ar draethau'r DU yn fagiau plastig;
- Amcangyfrifir bod bag plastig yn cymryd rhwng 450 a 1,000 o flynyddoedd i bydru;
- Megis dechrau cael ei chofnodi y mae'r effaith y mae bagiau plastig yn ei chael ar fywyd gwyllt, ond amcangyfrifir bod tua 100,000 o adar môr a mamaliaid yn cael eu crogi neu eu mygu gan fagiau plastig ledled y byd. Gwelwyd cynnydd hefyd yn niferoedd yr anifeiliaid a'r adar gwyllt sy'n llyncu plastig, ac effaith hynny arnynt.

21. Yr oedd gan dystion eraill farn amrywiol am effaith amgylcheddol bagiau plastig.

22. Datganodd sawl tyst fod bagiau plastig yn symptom gweledol iawn o'r broblem sbwriel, er eu bod yn cynrychioli canran isel o gyfanswm sbwriel y DU. Awgrymodd Cadwch Gymru'n Daclus a Marks and Spencer na fyddai gwahardd bagiau plastig yn lleihau faint o sbwriel a gynhyrchir yn y DU yn sylweddol. Yn hytrach, roeddent yn ei weld fel ffordd o amlygu'r broblem sbwriel ac o annog prynwyr i fod yn fwy ymwybodol o oblygiadau eu gweithredoedd prynu a gwaredu.

23. Fodd bynnag, dadleuodd cynrychiolwyr y Consortiwm Bagiau Plastig na fyddai gwahardd bagiau plastig neu osod ardoll arnynt yn gwneud llawer i leihau ysbwriel yng Nghymru o gwbl. Eu safbwynt hwy oedd:

> "We believe that the only way forward for Governments to ensure real change in reducing environmental impacts is to prioritise actions by tackling macro environmental issues such as transport, heating, industrial energy wastage and food waste etc and not to succumb to populist mythologies such as banning carrier bags which acts as a diversion and threatens to create even greater environmental impacts."

24. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o Weriniaeth yr Iwerddon yn awgrymu bod yr ardoll a osodwyd ar fagiau plastig gan y llywodraeth genedlaethol wedi arwain at ostyngiad cyffredinol mewn sbwriel a bu gostyngiad o tua 95% yn lefel y sbwriel bagiau plastig.

25. Rydym yn cytuno gyda mwyafrif y tystion y byddai gwahardd bagiau plastig nid yn unig yn ffordd o ddechrau mynd i'r afael â phroblemau ysbwriel ond hefyd yn ffordd o godi ymwybyddiaeth ynghylch materion amgylcheddol ymysg cwsmeriaid yn gyffredinol.

## Y diffiniad o fag plastig a goblygiadau newid i ddeunyddiau amgen.

26. Un o'r materion allweddol a godwyd yn ystod y sesiynau tystiolaeth oedd pwysigrwydd rhoi diffiniad manwl o'r hyn a fyddai'n cael ei wahardd neu a fyddai'n destun ardoll.

27. Dadleuodd Cadwch Gymru'n Daclus a'r Consortiwm Bagiau Plastig y gallai gwahardd neu osod ardoll ar fagiau plastig yn unig arwain at gynnydd yn y defnydd o fathau eraill o fagiau a wneir o ddeunyddiau gwahanol a fydd yn dal i gael effaith ar yr amgylchedd.

28. Dadleuwyd y gallai mathau eraill o blastig bioddiraddadwy, papur, a deunyddiau eraill a ddefnyddir unwaith ac a gaiff eu taflu'n fuan ar ôl eu prynu gael yr un effaith amgylcheddol â'r bagiau a ddefnyddir ar hyn o bryd. Dylid anelu at annog prynwyr i ailddefnyddio eu bagiau ar gyfer eu siopa ac i beidio â gofyn am fag newydd, na disgwyl cael un, bob tro y maent yn prynu rhywbeth.

29. Dadleuodd Consortiwm Manwerthu Prydain fod tua 80% o fagiau plastig yn cael eu hailddefnyddio o leiaf unwaith yn y cartref wedi iddynt gael eu prynu, yn ôl Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yn ôl y Consortiwm, ni ddylid ystyried y bagiau hyn fel bagiau untro oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion eraill yn y cartref.

30. Yn Iwerddon, dim ond ar fagiau plastig y gosodir ardoll. Y diffiniad a ddefnyddir yn Iwerddon ar gyfer bagiau y gosodwyd ardoll arnynt yw:

> "…. a bag made wholly or in part of plastic"

Mae hefyd yn berthnasol i fagiau gyda handlenni ond nid yw'n berthnasol i fagiau plastig sydd wedi cael eu dylunio ar gyfer eu hailddefnyddio neu i gynnwys cig, pysgod, dofednod neu eitemau rhydd fel ffrwythau, llysiau a melysion.

31. Mae'r gwelliannau i'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd, sy'n cynnwys cymalau ar osod ardoll, yn cyfeirio at fagiau untro. Gwneir y diffiniad o'r bagiau hyn drwy reoliadau, ond gall gyfeirio at:

> "(a) a bag's size, thickness, construction, composition or other characteristics, or
> (b) Its intended use, or any combination of those factors."

32. Rydym yn cydnabod y bydd llwyddiant unrhyw gamau a gymerir i fynd i'r afael â bagiau plastig yn dibynnu'n fawr ar sicrhau y caiff y math o fag sydd dan sylw ei ddiffinio'n glir ac yn ddiamwys.

## Y dull gwirfoddol

33. Roedd y mwyafrif o'r tystion oedd yn cynrychioli barn y diwydiant o blaid dull gwirfoddol o leihau nifer y bagiau plastig sy'n cael eu defnyddio.

34. Amcangyfrifodd WRAP y bu gostyngiad erbyn mis Chwefror 2008 o 14% yn effaith amgylcheddol bagiau plastig (wedi ei fesur o ran y defnydd o blastig newydd) ers i'r 21 corff lofnodi'r cytundeb gwirfoddol yn 2007. Gostyngodd nifer y bagiau a ddefnyddiwyd gan y llofnodwyr 1 biliwn i 12.4 biliwn.

35. Dadleuodd Consortiwm Manwerthu Prydain y byddai cytundeb gwirfoddol yn sicrhau'r gostyngiad sydd ei angen, gan ddatgan:

> "Retailers are fully committed to reaching and exceeding the targets set out in the voluntary agreement. Retailers are aiming to achieve this through a variety of methods, including:
>
> - Promoting the sale of 'bags for life', including short-term free giveaways;
> - Offering an array of 'bags for life' to fit in with consumer lifestyles;
> - Removing single-use bags from till points so consumers are required to ask for bags;
> - Increased engagement with customers at till point through asking if they 'need' a bag rather than 'want' a bag;
> - Rewarding consumers with green bonus loyalty points when they remember to use 'bags for life';
> - Increasing the amount of recycled material from which plastic bags are made;
> - Extensive promotion throughout their stores of their initiatives;
> - Increased recycling facilities in the grounds of large stores."

36. Fodd bynnag, wrth egluro ei benderfyniad i godi tâl am fagiau siopa yn ei neuaddau bwyd, dadleuodd Marks and Spencer yn erbyn hyn drwy ddweud:

> "We were clear as a retailer that the usage [of carrier bags] had become profligate, not just across our business but across the whole retail space and that we needed to do something about it. The initial commitments that we made helped us to reduce bag usage by about 14 per cent, which was a start, but we were clear as a business that that was not the kind of substantial change that we wanted to effect in our environmental footprint."

37. Mewn asesiad o effaith y pwerau sydd eu hangen i godi tâl am fagiau untro, bwriodd DEFRA amheuaeth ar allu cytundeb gwirfoddol ymysg gwerthwyr i sicrhau'r gostyngiad sydd ei angen yn y defnydd o fagiau plastig:

> The Government is committed (Waste Strategy 2007, Prime Minister's November 2007 speech) to phasing out (free) single-use carrier bags. Yet the Government has been unable to orchestrate a sufficient response to public demand for a huge reduction in carrier bag usage. Government intervention is needed because retailers are unlikely to be able to achieve this themselves without resorting to charging for bags – and their ability to do this collectively is impeded by Competition Law. Responding to public demand in this way will build trust in the Government's other environmental programmes as well as leading to beneficial behaviour change by consumers[4].

---

[4] DEFRA 2008 - *Partial Impact Assessment of powers to require charges for single-use carrier bags*
http://www.defra.gov.uk/environment/climatechange/uk/legislation/pdf/partial-ia-carrierbags.pdf

38. Rydym yn pryderu ynghylch y cynnydd a wnaethpwyd o dan y cytundeb gwirfoddol presennol ac yn cytuno gydag asesiad Llywodraeth y DU bod angen i'r Llywodraeth ymyrryd er mwyn sicrhau newid sylweddol yn ymddygiad pobl tuag at ddefnyddio bagiau plastig yng Nghymru.

## Goblygiadau gwahardd bagiau plastig a'r materion ymarferol sy'n deillio o hynny

39. Mae bagiau plastig wedi cael eu gwahardd mewn sawl ardal. Mae gwaharddiadau wedi tueddu i ganolbwyntio ar faterion penodol: ym Mangladesh, er enghraifft, gwaharddwyd bagiau plastig yn dilyn llifogydd difrifol, lle'r oedd bagiau plastig wedi cyfrannu at flocio'r draeniau[5]. Mae gwaharddiadau mewn gwledydd sy'n datblygu wedi tueddu i ganolbwyntio ar fagiau plastig tenau iawn sy'n rhwygo'n hawdd ac sy'n llai tebygol o gael eu hailddefnyddio na bagiau mwy trwchus[6]. Mae'r unig waharddiad sy'n cynnwys poblogaeth fawr yn un o wledydd yr OECD i'w gael yn San Francisco[7]. Amcangyfrifodd pennaeth Adran yr Amgylchedd y ddinas y byddai'r gwaharddiad yn atal oddeutu 4,200 tunnell o garbon deuocsid rhag cael ei greu pob blwyddyn[8].

40. Ym mis Ionawr 2009, bydd Ffrainc a'r Eidal yn cyflwyno gwaharddiad ar fagiau plastig nad ydynt wedi eu gwneud o ddeunyddiau bioddiraddadwy.

41. Roedd mwyafrif y tystion a gyflwynodd dystiolaeth i ni yn erbyn gweld Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithredu gwaharddiad llwyr ar fagiau plastig.

42. Roedd Cymdeithas Cadwraeth y Môr yn cefnogi'r cais am waharddiad a gyflwynwyd yn y ddeiseb. Dadleuodd:

> "A plastic bag ban, if implemented correctly, ensuring that other forms of packaging do not simply replace them, could contribute to a significant reduction in the quantities of plastic bags littering our landscapes, beaches and seas and help reduce one of the modern-day consumer's impacts on marine wildlife."

43. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn credu bod gwaharddiad yn ymarferol bosibl, ond y byddai'n rhaid ei orfodi a bod angen i unrhyw ddeddfwriaeth i wahardd bagiau plastig yrru'r newid mewn ymddygiad.

44. Dadleuodd Basil Tucker o Cardinal Packaging Cyf y byddai gwahardd bagiau plastig yn arwain at golli swyddi yng Nghymru, er bod y mwyafrif o'r bagiau plastig a ddefnyddir yn y DU ar hyn o bryd yn dod o wledydd eraill. Datganodd ei fod eisoes wedi diswyddo 45 o weithwyr o'i fusnes gweithgynhyrchu pecynnau o ganlyniad uniongyrchol i bwysau cyhoeddus o

---

[5] The Independent, *China boosts global war against menace of the plastic bag*, 12 Ionawr 2008, http://www.guardian.co.uk/environment/2008/jan/12/plasticbags.recycling
[6] McDonnell S a Convery F, 2008. *The Irish plastic bag levy – A review of its performance 5 years on*, Papur drafft sydd heb ei gyhoeddi eto.
[7] Dinas a Sir San Francisco, *Commission on the Environment: Regular meeting approved minutes*, 27 March 2007, http://www.sfgov.org/site/sfenvironment_page.asp?id=58406
[8] CBC, *San Francisco bans traditional plastic grocery bags*, http://www.cbc.ca/technology/story/2007/03/28/sanfrancisco-plastic.html

ran y defnydd o fagiau plastig oherwydd bod llai yn cyrraedd y ffatri i gael eu hailgylchu a’u defnyddio ar gyfer mathau eraill o becynnau plastig.

45. Bwriodd y Consortiwm Bagiau Siopa amheuaeth ddifrifol ar gyfreithlondeb gosod gwaharddiad neu ardoll ar fagiau siopa plastig, gan ddatgan:

> “We have serious concerns that any legislation or regulatory move against a single material, that is, plastics, would be anti-competitive under European competition law and, we believe, in contravention of European human rights legislation, as it restricts the freedom of choice of the shopper and the retailer over the method of taking goods home.

Cyfaddefodd nad oedd hyn wedi ei brofi eto mewn llys barn.

46. Mae gennym bryderon ynghylch gallu Cymru i orfodi gwaharddiad unochrog ar fagiau plastig. Byddai nid yn unig y gofyn am lawer o adnoddau i’w blismona, ond mae materion hefyd ar gyfer y cymunedau sy’n byw’n agos at y ffin â Lloegr. Ni chredwn fod gwahardd bagiau plastig yng Nghymru’n opsiwn ymarferol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

47. Mae gennym bryderon hefyd ynghylch y dystiolaeth a roddwyd i ni ynglŷn ag effaith gwaharddiad ar swyddi yng Nghymru ac yn y DU. Fel y datganodd y Consortiwm Bagiau Plastig, daw bron bob un o’r bagiau plastig a ddefnyddir yn y DU o’r Gorllewin Pell.

## Goblygiadau gosod ardoll ar fagiau plastig a’r materion ymarferol sy’n deillio o hynny

48. Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan swyddogion y llywodraeth, gwerthwyr, awdurdodau lleol a Coastwatch yng Ngweriniaeth Iwerddon ynghylch eu profiad hwy o’r ardoll ar fagiau siopa plastig a weithredwyd ers 2002.

49. Mae Adran yr Amgylchedd, Treftadaeth a Llywodraeth Leol Iwerddon yn amcangyfrif bod yr ardoll wedi golygu gostyngiad o dros 95% mewn bagiau plastig sy’n cael eu taflu. Mae’r arian a gesglir o’r ardoll yn mynd yn uniongyrchol i’r gronfa amgylchedd i’w ddefnyddio ar gyfer cynlluniau amgylcheddol.

50. Er gwaethaf y cynnydd diweddar yn y defnydd o fagiau plastig, sydd wedi arwain at gynnydd yn yr ardoll a osodwyd arnynt, amcangyfrifir bod gostyngiad o 91% o hyd yn y nifer o fagiau plastig sy’n ymuno â’r llif gwastraff, o’i gymharu â ffigurau 2001.

51. Awgrymwyd mai un o’r ffactorau sydd wedi arwain at lwyddiant yr ardoll yw’r ffaith bod yr arian a gesglir drwy’r ardoll yn mynd yn syth i’r Gronfa Amgylcheddol i’w ddefnyddio ar gyfer mentrau amgylcheddol. Ers creu’r gronfa, mae wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer mentrau megis darparu a rhedeg adnoddau ailgylchu a chanolfannau dychwelyd ychwanegol, cynlluniau ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth am wastraff a chynlluniau ac ymgyrchoedd addysg.

52. Daeth astudiaeth o sut y gweithredwyd yr ardoll, a gynhaliwyd 5 mlynedd wedi iddo gael ei gyflwyno, i'r casgliad nad oedd y baich gweinyddol yn ormodol (tua €1.2 miliwn oedd cyfanswm y costau sefydlu untro a thua €350,000 oedd cyfanswm y costau gweinyddu blynyddol, gyda chostau cyhoeddusrwydd ychwanegol o €358,000) o'i gymharu â'r incwm a gynhyrchwyd (casglwyd €85,287,627.29 rhwng 2002 ac Awst 2007).

53. Nododd Marks and Spencer fod yr ardoll y mae wedi ei chyflwyno ar y bagiau untro yn ei neuaddau bwyd wedi arwain at ostyngiad o 80% yn y defnydd o fagiau plastig yn ei siopa mewn oddeutu 4 mis.

54. Roedd yn credu bod y ffaith bod unrhyw elw a wneir o'r ardoll yn cael ei roi i ymddiriedolaeth Groundwork ar gyfer cynlluniau amgylcheddol yn y gymuned yn rhan bwysig o'r polisi. Pwysleisiodd yr angen hefyd i hysbysu cwsmeriaid a staff ynghylch y rhesymau dros gael yr ardoll a'r canlyniadau a sicrhawyd o'r arian a godwyd.

55. Bwriwyd amheuaeth ar y ffigurau o Iwerddon gan rai tystion, a honnodd y bu cynnydd yng ngwerthiant bagiau sydd wedi eu gwneud o ddeunyddiau eraill, megis papur, oherwydd y gwaharddiad ar fagiau plastig, a bod materion amgylcheddol gwahanol o ganlyniad i hynny, megis y cynnydd mewn allyriadau trafnidiaeth oherwydd bod angen mwy o le i'w cludo. Roeddent yn honni hefyd y bu cynnydd yn nifer y bagiau plastig du, bagiau bin a bagiau cewynnau a werthir yn y Weriniaeth ers cyflwyno'r ardoll.

56. Fodd bynnag, roedd yr holl dystion y bu i ni siarad â hwy yn Iwerddon yn gweld yr ardoll fel rhywbeth cadarnhaol a oedd wedi arwain at ostyngiad mwy na'r disgwyl yn y defnydd o fagiau plastig.

57. Mynegodd y Consortiwm Bagiau Plastig bryder ynghylch y ffaith y byddai ardoll yn golygu y byddai'r rheini ar incwm isel dan anfantais a bod hynny'n annheg. Dadleuodd nad oes gan lawer sydd ar incwm isel gar a bod arnynt angen:

> "a lightweight, portable and free container to take shopping home in and they then use that as a bin liner. Some people, particularly on low incomes, would find it onerous to have to buy bags for bins. We could even envisage a situation where certain households would incur greater public hygiene risks simply because they did not have the ability to contain safely the waste that the household was creating."

Fodd bynnag, pan holwyd y Consortiwm Bagiau Plastig ynghylch hyn, nid oedd ganddo'r dystiolaeth i gefnogi ei honiad.

58. Nododd cynrychiolwyr Cadwch Gymru'n Daclus mai'r dewis yr oeddent hwy yn ei gefnogi oedd y dewis o gael ardoll ar bob bag plastig. Dywedodd:

> "A levy option would not restrict consumer choice but would clearly benefit individuals that re-use their carrier bags."

59. Wedi ystyried y mater, credwn mai gosod ardoll ar fagiau plastig yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau nifer y bagiau a ddefnyddir gan werthwyr a chwsmeriaid ac o newid ymddygiad cwsmeriaid mewn amser byr.

## Casgliadau ac argymhellion.

60. Yn sgil y dystiolaeth a gawsom, credwn y dylid rheoli'r arfer o roi bagiau untro i gwsmeriaid wrth y pwynt gwerthu. Er ein bod yn derbyn bod effaith amgylcheddol y bagiau hyn yn fach o ran nifer, credwn eu bod yn arwydd pwysig a gweledol o effaith amgylcheddol dewisiadau cwsmeriaid.

61. Credwn fod angen i'r llywodraeth ymyrryd er mwyn rheoli'r arfer o roi bagiau untro i gwsmeriaid er mwyn cyfleu neges gref i gwsmeriaid ynghylch sut y gall newid bychan yn eu hymddygiad o ran prynu a gwaredu sicrhau newid mawr i'r amgylchedd mewn amser byr.

62. Credwn mai gosod ardoll yw'r ffordd orau a mwyaf ymarferol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymyrryd, ond credwn y dylai unrhyw elw a wneir o ardoll o'r fath ei ddefnyddio ar gyfer buddiannau amgylcheddol. Ceir amcangyfrif o'r symiau y gellid eu codi drwy ardoll yn Atodiad B.

**63. Felly, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio ei phwerau o dan adran 75 o'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd cyn gynted â phosibl er mwyn gosod ardoll ar fagiau untro wrth y pwynt gwerthu. Credwn y dylai'r ardoll gynnwys pob math o fag siopa ac na ddylid ei chyfyngu i fagiau plastig.**

**64. Rydym hefyd yn argymell y dylai unrhyw arian a gesglir drwy'r ardoll gael ei ddefnyddio gan gorff hyd braich mewn modd agored a thryloyw i ariannu prosiectau amgylcheddol yng Nghymru.**

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Hydref 2008

**Atodiad A**

## Tystion

24 Ebrill – SC(3)-08-08: Trawsgrifiad

Cadwch Gymru’n Daclus: SC(3)-08-08: Papur 2: Tystiolaeth gan Cadwch Gymru’n Daclus ar Ddeiseb P-03-63, Galw am Wahardd Bagiau Plastig

Cymdeithas Cadwraeth y Môr: SC(3)-08-08: Papur 3: Tystiolaeth gan Gymdeithas Cadwraeth y Môr ar Ddesieb P-03-63, Gwahardd Bagiau Plastig

22 Mai 2008 – SC(3)-11-08: Trawsgrifiad

Consortiwm Manwerthu Prydain: SC(3)-11-08: Papur 1: Papur gan Gonsortiwm Manwerthu Prydain ar y ddeiseb bagiau plastig

Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau: SC(3)-11-08: Papur 2: Papur gan Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau ar y ddesieb bagiau plastig

14 Gorffennaf - ymweliad anffurfiol â Gweriniaeth Iwerddon i ganfod ffeithiau
Sesiwn dystiolaeth anffurfiol gydag:
Adran yr Amgylchedd, Treftadaeth a Llywodraeth Leol
Comisiynwyr Refeniw
Cyngor Sir De Dulyn
Cyngor Dinas Dulyn
Retail Ireland
Tesco Ireland
Coastwatch Europe
SC(3)-18-08: Paper 5: Adroddiad ar Ymweliad Canfod Ffeithiau’r Pwyllgor i Ddulyn o ran yr Ardoll Bagiau Siopa Plastig, 14 Gorffennaf 2008

25 Medi – SC(3)-18-08: Trawsgrifiad

Marks and Spencer ac ymddiriedolaeth Groundwork: SC(3)-18-08: Papur 1: Cyflwyniadau gan Marks and Spencer a Groundwork ar y Ddeiseb i wahardd Bagiau Siopa Plastig

**Atodiad B**

## Dadansoddiad o'r Ardoll ar Fagiau Plastig

Mae'r cyfrifiadau hyn o'r arian y gellid ei gasglu yng Nghymru wedi'u seilio ar y tybiaethau a ganlyn:

- Byddai gostyngiad yn y defnydd o fagiau plastig ar raddfa debyg i'r raddfa yn Iwerddon (90 y cant) pe bai ardoll yn cael ei gosod.
- Ni fyddai lefel yr ardoll yn effeithio ar y gostyngiad.

Mae ymchwil gan DEFRA yn dangos bod mwy na 13 biliwn o fagiau plastig, neu 216 y person, yn cael eu dosbarthu yn y DU bob blwyddyn[9]. Yng Nghymru, mae hyn yn cyfateb i tua 648 miliwn o fagiau plastig y flwyddyn. Yng Ngweriniaeth Iwerddon, gostyngodd y defnydd o fagiau plastig tua 90 y cant yn dilyn gosod yr ardoll[10]. Pe bai gostyngiad o 90% yng Nghymru, amcangyfrifir y canlynol:

- Byddai ardoll o 10c y bag yn golygu refeniw blynyddol o £6.48 miliwn.
- Byddai ardoll o 15c y bag yn golygu refeniw blynyddol o £9.72 miliwn.
- Byddai ardoll o 20c y bag yn golygu refeniw blynyddol o £13.96 miliwn.

Fel y gwelwyd yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae ardoll uwch yn lleihau nifer y bagiau plastig a ddosberthir, felly byddai'r refeniw blynyddol yn llai na'r hyn a awgrymir yn y ffigurau uchod.

Er mwyn cymharu, £1.6 miliwn oedd incwm Cadwch Gymru'n Daclus yn 2005/06, £17.1 miliwn oedd yr incwm o roddion elusennol ar gyfer BTCV UK, a gwariodd Groundwork yng Nghymru £9.4 miliwn ar brosiectau adfywio yn 2007/08.

[9] DEFRA, *Local environmental quality: Carrier bags* [ar 13 Hydref 2008]
[10] Convery *et al*, 2006. The most popular tax in Europe? Lessons from the Irish plastig bag levy. *Environ Resource Econ,* 2007, 38: 1-11.